



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yr Adran Materion Gwledig

Mae gwybodaeth am y cyhoeddiad hwn a chopïau pellach ar gael gan:

Y Tîm Lles Anifeiliaid Fferm
Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol
Llywodraeth Cynulliad Cymru

Adeiladau'r Llywodraeth
Hill House
Caerfyrddin
SA31 3BS

Ffôn: 01267 225300

E-bost: livestockwelfare@wales.gsi.gov.uk

LLES ANIFEILIAID WRTH EU CLUDO – NODIADAU CYFARWYDDYD

**RHEOLIAD (EC) RHIF 1/2005 Y CYNGOR AR DDIOGELU ANIFEILIAID WRTH
EU CLUDO A GWEITHREDIADAU CYSYLLTIEDIG A GORCHYMYN LLES
ANIFEILIAID (CLUDO) CYMRU 2007**

GOFYNION HYFFORDDIANT A CHYMHWYSEDD O DAN REOLIAD (EC) RHIF 1/2005 Y CYNGOR AR DDIOGELU ANIFEILIAID WRTH EU CLUDO A GWEITHREDIADAU CYSYLLTIEDIG ERAILL

Cyflwyniad

1 O dan Reoliad (EC) Rhif 1/2005 y Cyngor ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo a gweithrediadau cysylltiedig, o 5 Ionawr 2007 rhaid i bawb sy'n cludo anifeiliaid asgwrn cefn mewn perthynas â gweithgarwch economaidd a staff marchnadoedd a chanolfannau cynnull sy'n trafod anifeiliaid gael hyfforddiant ar ddarpariaethau technegol perthnasol y Rheoliad. Yn achos cludwyr, maent yn cwmpasu: ffitrwydd i deithio; y dull cludo; y defnydd o'i gyfleusterau; llwytho, dadlwytho a thrafod; seibiannau i roi bwyd a dŵr, amseroedd teithiau a chyfnodau gorffwys; faint o le i'w neilltuo; a dogfennaeth. Yn achos staff marchnadoedd a chanolfannau cynnull maent yn cwmpasu: ffitrwydd, trafod a gwahanu.

2 Mae'r Rheoliad hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol o 5 Ionawr 2008 i bawb sy'n cludo gwartheg, defaid, geifr, moch, ceffylau a dofednod ar y ffordd ar deithiau dros 65km mewn perthynas â gweithgarwch economaidd gael eu hasesu'n annibynnol i sicrhau eu bod yn gymwys.

CLUDWYR

Hyfforddiant

3 Rhaid i yrwyr a chynorthwywyr gael hyfforddiant ar y rhannau perthnasol o'r rheolau technegol yn Atodiad I a II o'r Rheoliad. Mae'r rhain yn cwmpasu'r meini prawf ar gyfer: ffitrwydd i deithio; y dull cludo; y defnydd o'i gyfleusterau; llwytho, dadlwytho a thrafod; seibiannau i roi bwyd a dŵr, amseroedd teithiau a chyfnodau gorffwys; faint o le i'w neilltuo; a dogfennaeth.

4 Nid yw'r Rheoliad yn pennu union fformat yr hyfforddiant na phwy all ddarparu'r hyfforddiant. Gellir cyfuno hyfforddiant yn y swydd gyda phrofiad ymarferol neu gellir darparu hyfforddiant ffurfiol sy'n arwain at safonau sy'n gyfwerth â chymwysterau sydd wedi eu hachredu yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol ar lefelau 2 a 3 fel y darperir gan y diwydiant, colegau amaethyddol, busnesau cludo a darparwyr masnachol. Hwyrach y bydd angen

addasu rhai cymwysterau i sicrhau eu bod yn cynnwys yn llawn unrhyw gymwyseddau ychwanegol sy'n ofynnol dan y Rheoliad. Dylid defnyddio'r fframweithiau cymwyseddau yn yr atodiadau i'r canllaw hwn wrth ystyried pa mor addas yw'r hyfforddiant a gafwyd, boed yn gymhwyster ffurfiol neu'n hyfforddiant yn y swydd.

Ardystio Cymhwysedd

5 Fel y soniwyd uchod, o 5 Ionawr 2008, rhaid i bawb sy'n cludo gwartheg, defaid, geifr, moch, ceffylau a dofednod ar y ffordd ar deithiau dros 65km mewn perthynas â gweithgarwch economaidd gael eu hasesu'n annibynnol i sicrhau eu bod yn gymwys. Os yw'r asesiad yn dangos eu bod yn gymwys, byddant yn cael tystysgrif cymhwysedd ar y ffurf a ddangosir yn yr atodiadau i'r canllaw hwn. Bydd y dystysgrif yn cael ei chyhoeddi gan yr awdurdod cymwys neu gorff a ddynodir gan yr Aelod-wladwriaeth. Rhaid cyflwyno'r dystysgrif gyda cheisiadau am dystysgrif awdurdodi cludwyr ar gyfer teithiau hir a rhaid ei dangos i swyddogion gorfodi wrth gludo anifeiliaid.

6 Bydd tystysgrifau penodol ar gyfer swyddogaeth y cludwr neu'r cynorthwydd, hyd y teithiau a'r rhywogaeth sy'n cael ei chludo:

- a) gellir asesu'r rhai sy'n gwneud **teithiau llai nag 8 awr** trwy brawf theori;
- b) wrth asesu'r rhai sy'n gwneud **teithiau dros 8 awr** rhaid cynnwys asesiad ymarferol o'u cymhwysedd gan gynnwys sgiliau gyrru a thrafod anifeiliaid.

Cymwyseddau i'w hasesu

7. Mae'r elfennau y mae'n rhaid bod yn gymwys ynddynt wedi eu nodi yn y Rheoliad. Fodd bynnag, er mwyn eu gwneud yn eglur, mae fframweithiau cymwyseddau wedi eu paratoi a'u cytuno mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Mae'r fframweithiau ar gyfer gwartheg, defaid, geifr, moch, ceffylau a dofednod i'w gweld yn yr atodiadau i'r canllaw hwn.

Sut mae cael tystysgrif cymhwysedd

8 Nid Llywodraeth y Cynulliad a'r awdurdodau cymwys eraill fydd yn asesu ac ardystio. Cyrff y sector preifat sydd wedi eu henwebu gan yr awdurdodau fydd yn gwneud hyn. Mae'r broses ddethol ac enwebu yn parhau ond y bwriad yw rhoi dewis i ymdrin â gofynion sectorau penodol. Dylech gysylltu ag un o'r cyrff dyfarnu sydd wedi eu henwebu gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae rhestr o'r rhai a oedd wedi eu henwebu adeg cyhoeddi'r canllaw hwn i'w gweld isod:

NPTC, Rhan o Grŵp City & Guilds Stoneleigh Park Warwickshire CV8 2LG	(gwartheg, defaid, moch, ceffylau, dofednod ac adar hela) Ffôn: 024 7685 7300 Ffacs: 024 7669 6128 E-bost: information@nptc.org.uk Gwefan: www.nptc.org.uk
---	---

Bydd manylion cyrff a enwebir ar ôl hynny i'w gweld mewn fersiynau diweddarach o'r canllaw hwn ac ar wefan Llywodraeth y Cynulliad.

Cludwyr neu gynorthwyr sydd â thystysgrifau cludo neu ardystiad annibynnol yn barod

9 Er nad yw'r Rheoliad yn caniatáu i bobl ddefnyddio 'hawliau taid' yn hytrach na chael eu hasesu'n llawn, o dan ofynion y Rheoliad gall y rhai sydd â chymwysterau ffurfiol penodol a oedd yn cael eu cydnabod dan y Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) 1997 blaenorol gael tystysgrifau cymhwysedd gan y corff dyfarnu gwreiddiol, os yw'r holl agweddau ar y fframwaith o gymwyseddau yn atodiad 1 wedi cael sylw. Gan na fydd y rhain yn cynnwys cyfeiriadau at Reoliad 1/2005, rhaid gwerthuso gwybodaeth deiliaid y cymwysterau hynny am ofynion y Rheoliad cyn rhoi tystysgrif cymhwysedd ar y ffurf a nodir yn yr atodiadau i'r canllaw hwn. Dyma'r cymwysterau a gafodd eu cydnabod dan Orchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) 1997:

- a) Tystysgrifau gan gyrff annibynnol sydd wedi eu cymeradwyo gan Weinidogion fel Cyngor y Profion Medrusrwydd Cenedlaethol (NPTC) sy'n rhan o Grŵp City and Guilds, neu'r Road Haulage Association (RHA);
- b) S/NVQ Lefel 2 mewn 'Cludo Nwyddau ar y Ffordd' (yng nghyd-destun cludo da byw), Unedau 5,6 a 7
- c) S/NVQ Lefel 3 mewn Rheoli a Gofalu am Geffylau Rasio – sicrhau iechyd a lles ceffylau wrth eu cludo, Uned 3.04

10 Nid oedd gofyn i gludwyr dofednod ddangos cymhwysedd yn ffurfiol trwy gyfrwng cymhwyster neu dystysgrif o dan Orchymyn 1997 felly rhaid iddynt gael ardystiad fel y disgrifir uchod.

Enwebu cyrff dyfarnu ar gyfer tystysgrifau cymhwysedd

11 Bydd AACCC, DEFRA, SEERAD a DARDNI yn enwebu'r cyrff dyfarnu ar gyfer y tystysgrifau ar yr amod eu bod yn bodloni safonau penodol o ran cwmpas, cymwyseddau i'w hasesu, annibyniaeth, atebolrwydd a gofynion archwilio. Rhaid iddynt gadw cofnodion digonol o'r tystysgrifau sydd wedi eu dyfarnu ac ymateb i geisiadau am wybodaeth gan awdurdodau gorfodi o fewn un diwrnod gwaith.

12 Sefydliadau arbenigol yn y maes hwn fydd yn pennu a all y cyrff dyfarnu sy'n ymgeisio fodloni'r safonau gofynnol. Y sefydliadau arbenigol yw Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS), Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru yng Nghymru a'r Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm (QCA) yn Lloegr. Mae gan y Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (CCEA) ac Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm Gogledd Iwerddon (QCA NI) swyddogaethau tebyg ond maent fel arfer yn gweithio ar y cyd â'r QCA. Yn yr Alban, caiff cyrff dyfarnu eu rheoleiddio gan Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA).

13 Dylai darpar gyrff dyfarnu gyflwyno'u cynigion a thystiolaeth o fodloni'r safonau gofynnol:

Yng Nghymru i – Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ;

yn Lloegr i'r – Department for Environment, Food and Rural Affairs (DEFRA), Animal Welfare Division, Transport and Markets Team, 1A Page Street, London SW1P 4PQ;

yn yr Alban i – Scottish Executive Environment and Rural Affairs Department (SEERAD, Pentland House, 47 Robbs Loan, Edinburgh EH14 1TY;

Yng Ngogledd Iwerddon i – Department for Agriculture and Rural Development in Northern Ireland (DARD), Room 728, Dundonald House, Upper Newtownards Road, Belfast BT4 3SB.

14 Os bernir bod y cynigion yn gadarn ac yn bodloni'r safon ofynnol, bydd gweinyddiaethau'n enwebu'r canlynol yn gyrff cyhoeddi:

(a) sefydliadau sydd â'r achrediad angenrheidiol a ddisgrifir uchod. Gallai'r cyrff hyn gynnwys aseswyr annibynnol, darparwyr newydd, cyrff sy'n cynrychioli rhywogaethau/sectorau penodol neu gynlluniau sicrhau ansawdd y diwydiant.

(b) cyrff arholi ar gyfer cymwysterau hen neu newydd sydd wedi'u hachredu i'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol ar Iefelau 2 a 3.

STAFF SY'N TRAFOD ANIFEILIAID MEWN CANOLFANNAU CYNNULL A MARCHNADOEDD

15 Rhaid i weithredwyr pob canolfan gynnull a marchnad sicrhau bod anifeiliaid yn cael eu trin yn unol â'r rheolau technegol a bennir ym Mhenodau I a III, adran 1 o Atodiad I y Rheoliad.

Hyfforddiant

16 Mae lefel y wybodaeth a hyfforddiant sydd eu hangen mewn canolfannau cynnull a marchnadoedd yn dibynnu ar a yw safle wedi'i gymeradwyo dan ddeddfwriaeth iechyd milfeddygol y Gymuned Ewropeaidd ac felly'n gallu cael ei ddefnyddio i grwpio anifeiliaid gyda'i gilydd i greu llwythi. Er hynny, rhaid i staff pob safle ddeall yn llawn y meini prawf yn Atodiad I ar gyfer ffitrwydd, trafod a gwahanu.

Safleoedd sydd wedi eu cymeradwyo gan yr UE

17 Rhaid i'r staff sy'n trafod anifeiliaid mewn canolfannau cynnull a marchnadoedd sydd wedi eu cymeradwyo yn unol â deddfwriaeth iechyd milfeddygol y Gymuned (wedi eu cymeradwyo gan yr UE) fod wedi derbyn hyfforddiant ar agweddau perthnasol ar y Rheoliad.

18 Nid yw'r Rheoliad yn nodi fformat yr hyfforddiant sy'n ofynnol. Gall gweithredwr y ganolfan gynnull/farchnad neu ddarparwr hyfforddiant trydydd parti ddarparu'r hyfforddiant yn fewnol neu gall staff gwblhau cymhwyster ffurfiol fel NVQ lefel 2 mewn porthmona. Ystyrir bod canolfan gynnull neu farchnad sydd wedi ei chymeradwyo i safon ABM neu gyfwerth yn cydymffurfio hefyd, cyn belled â bod gan yr holl staff sy'n trafod anifeiliaid NVQ lefel 2 mewn porthmona er mwyn i'r ganolfan gynnull neu'r farchnad gael y cyfryw gymeradwyaeth. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i'r rhai sydd â chymwysterau yn barod ddysgu am y rhannau perthnasol o'r Rheoliad newydd.

19 Rhaid i'r hyfforddiant roi sylw i'r rheolau technegol perthnasol a nodir yn Atodiad 1, sydd wedi eu hamlinellu yn y fframwaith a ddangosir yn yr atodiadau i'r canllaw hwn.

20 Nid oes angen tystysgrif cymhwysedd ar staff canolfannau cynnull a marchnadoedd o dan y Rheoliad.

Safleoedd eraill

21 Nid yw'r Rheoliad yn nodi bod angen hyfforddiant ar staff ond mae'n amlwg bod angen gwybodaeth arnynt am agweddau perthnasol ar y Rheoliad er mwyn cydymffurfio. Argymhellir felly bod gweithredwyr y safleoedd yn trefnu o leiaf rywffaint o hyfforddiant mewnol ar y gofynion neu'n annog staff i gwblhau hyfforddiant arall.

**FFRAMWAITH CYMWYSEDDAU AR GYFER CLUDWYR GWARTHEG,
MOCH, DEFAID, GEIFR A CHEFFYLAU (Rheoliad (EC) Rhif 1/2005 y Cyngor)**

1

Cwmpas

Gwybodaeth am y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i les anifeiliaid wrth eu cludo, yn enwedig am: amodau cyffredinol ar gyfer cludo anifeiliaid²; gofynion dogfennaeth³; rheolau technegol h.y. ar ffitrwydd i deithio, dull cludo, arferion cludo, amseroedd ar gyfer rhoi bwyd, dŵr a gorffwys, faint o le i'w neilltuo⁴; ac yn achos teithiau dros 8 awr o hyd, cynllunio'r daith a dogfennaeth⁵.

Ni fydd rhaid i bob gyrrwr/cynorthwydd ddangos yr holl gymwyseddu canlynol o reidrwydd ond bydd rhaid iddynt ddangos y rhai sy'n berthnasol i swyddogaeth a chyfrifoldeb penodol y gyrrwr/cynorthwydd.

Cymwyseddu

- 1 Gwybodaeth am y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â lles anifeiliaid a pha gorff neu sefydliad all ateb cwestiynau cyffredinol, er enghraifft, am amodau cludo, materion yn ymwneud â'r gyfraith neu ddogfennaeth.
- 2 Gwybodaeth am bwy sy'n gyfrifol am les anifeiliaid wrth eu cludo ac yn y manau lle maent cyn, yn ystod ac ar ôl y daith.
- 3 Gwybodaeth am bwerau awdurdodau gorfodi i archwilio anifeiliaid, dogfennaeth a cherbydau cyn, yn ystod ac ar ôl y daith.
- 4 Gwybodaeth am ofynion perthnasol y Rheoliad ar gyfer gorffwys, bwyd a hylif mewn perthynas â'r rhywogaeth i gael eu cludo.
- 5 Gwybodaeth sylfaenol am achosion straen mewn anifeiliaid, y gallu i adnabod arwyddion straen a salwch, yn enwedig straen oherwydd eu bod hi'n rhy boeth neu'n rhy oer, a gwybodaeth sylfaenol am y camau priodol i'w cymryd.
- 6 Gwybodaeth am y dulliau priodol o drafod anifeiliaid wrth lwytho a dadlwytho, gan gynnwys defnyddio meysydd gwelediad a pharthau hedfan, goleuadau a defnyddio pethau fel ffyn, byrddau, mygydau dros y llygaid a siociau trydan yn briodol. Gwybod pa ddulliau trafod sydd wedi eu gwahardd.
- 7 Gwybodaeth am sut i gynllunio taith gan ystyried ffactorau fel yr amseroedd teithio mwyaf a chyfnodau gorffwys gofynnol, yr amser sydd ei angen i lwytho a dadlwytho.

8 Gwybodaeth i ragweld amodau sy'n newid a darparu cynlluniau wrth gefn priodol ar gyfer amgylchiadau annisgwyl.

¹ Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd L3 05.01.05

² Erthygl 3 o Reoliad (EC) Rhif 1/2005 y Cyngor

³ Erthygl 4 o Reoliad (EC) Rhif 1/2005 y Cyngor

⁴ Atodiad I o Reoliad (EC) Rhif 1/2005 y Cyngor

⁵ Atodiad II o Reoliad (EC) Rhif 1/2005 y Cyngor

⁶ Ar gyfer teithiau sydd angen cynllun taith h.y. i aelod-wladwriaethau eraill neu drwy aelod-wladwriaethau i drydedd wlad

⁷ Dim ond ar gyfer teithiau dros 8 awr y mae angen cofnodion

⁸ I aelod-wladwriaethau eraill neu drwy aelod-wladwriaethau i drydedd wlad

9 Y gallu i lwytho, gweithredu a rheoli cerbyd yn ddiogel, yn effeithlon ac yn effeithiol er mwyn sicrhau lles yr anifeiliaid.

10 Gwybodaeth am Reoliadau Iechyd a Diogelwch a'r gallu i adnabod a lleihau risgiau.

11 Gwybodaeth am y gofynion o ran adeiladu a defnyddio cerbydau.

12 Gwybodaeth am ddefnyddio offer GPS i gofnodi manylion teithiau⁶ a chyflwyno cofnod i awdurdod cymwys yn ôl y gofyn.

13 Gwybodaeth am sut i adnabod anifeiliaid nad ydynt yn ffit i deithio; gofalu am anifeiliaid sy'n mynd yn sâl neu'n cael eu hanafu yn ystod y daith; pryd i ofyn am gyngor milfeddyg; a'r amgylchiadau prin lle gellir cludo anifeiliaid nad ydynt yn ffit i gael triniaeth gan filfeddyg neu i gael eu lladd.

14 Gwybodaeth am faint o le i'w neilltuo, effeithiau gorlenwi, tanlenwi a lle uwch ben yr anifeiliaid.

15 Gwybodaeth am ofynion gwahanu, gan ystyried y rhywogaeth sy'n cael ei chludo, y dull cludo, rhyw, cyflwr ac oed.

16 Dealltwriaeth o bwysigrwydd y tymheredd y tu mewn a'r tu allan i'r cerbyd mewn perthynas â lles anifeiliaid, gan gynnwys yr effaith ar rywogaethau gwahanol a'r angen i addasu'r awyru.

17 Gwybodaeth am sut i sicrhau'r amodau amgylcheddol gorau y tu mewn i gerbyd/cynhwysydd cludo trwy gyfrwng awyru priodol ac effeithiol ac i gofnodi tymheredd a lleithder⁷.

18 Gwybodaeth am y gofynion awdurdodi ar gyfer cludwyr, pryd mae angen awdurdodiad a phryd mae angen cofnod taith⁸ neu ddogfennaeth arall a sut mae cwblhau'r dogfennau.

19 Y gallu i lanhau a diheintio cerbydau a gwybod pryd mae angen gwneud hynny cyn ac ar ôl y daith.

⁹ Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd L3 05.01.05

¹⁰ Erthygl 3 o Reoliad (EC) Rhif 1/2005 y Cyngor

¹¹ Erthygl 4 o Reoliad (EC) Rhif 1/2005 y Cyngor

¹² Atodiad I o Reoliad (EC) Rhif 1/2005 y Cyngor

¹³ Atodiad II o Reoliad (EC) Rhif 1/2005 y Cyngor

ATODIAD II

FFRAMWAITH CYMWYSEDDAU AR GYFER CLUDWYR DOFEDNOD (Rheoliad (EC) Rhif 1/2005 y Cyngor)⁹

Cwmpas

Gwybodaeth am y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i les anifeiliaid wrth eu cludo, yn enwedig am: amodau cyffredinol ar gyfer cludo anifeiliaid¹⁰; gofynion dogfennaeth¹¹; rheolau technegol h.y. ar ffitrwydd i deithio, dull cludo, arferion cludo, amseroedd ar gyfer rhoi bwyd, dŵr a gorffwys, faint o le i'w neilltuo¹²; ac yn achos teithiau dros 8 awr o hyd, cynllunio'r daith a dogfennaeth¹³.

Ni fydd rhaid i bob gyrrwr/cynorthwydd ddangos yr holl gymwyseddau canlynol o reidrwydd ond bydd rhaid iddynt ddangos y rhai sy'n berthnasol i swyddogaeth a chyfrifoldeb penodol y gyrrwr/cynorthwydd.

Mae rhywfaint o orgyffwrdd yn y pedwar maes allweddol canlynol (e.e. mae ffitrwydd i deithio yn gofyn am wybodaeth am y gofynion cyfreithiol a sgiliau ymarferol i'w rhoi ar waith yn gywir). Mae cymwyseddau a'r lefelau gallu a awgrymir wedi eu nodi mewn cromfachau.

Cymwyseddau

Gwybodaeth am y Gyfraith

1 Deddfwriaeth, codau, canllawiau, gofynion ffitrwydd i deithio, swyddogion ac offerynnau gorfodi (*dealltwriaeth ymarferol o sut mae'r gyfraith yn gweithredu a sut mae'n cael ei gorfodi; cymhwyso darpariaeth gyfreithiol; gwybodaeth am unrhyw godau neu ganllawiau cysylltiedig a dealltwriaeth ohonynt*).

2 Deall cyfrifoldebau gyrrwr (*dealltwriaeth ymarferol o'u cyfrifoldeb eu hunain a chyfrifoldeb cyn ac ar ôl y daith fel yn y man casglu a'r man gollwng a phwy i gysylltu â nhw os oes problem e.e. y Milfeddyg Swyddogol (OVS) neu'r Swyddog Lles Dofednod (PWO) mewn lladd-dy neu berson cyfrifol arall mewn safle arall*).

3 Gwybodaeth am y dogfennau sy'n ofynnol ar gyfer y cludwr a theithiau unigol, sut mae eu cwblhau (*gofynion o ran dogfennau, cwblhau dogfennau, cadw cofnodion am gyfnod priodol*).

4 Wrth gludo i dir mawr Ewrop neu drydedd wlad - unrhyw ddarpariaethau tramor perthnasol, gan gynnwys unrhyw ddogfennau ychwanegol sydd eu hangen (*mae'n bosibl y bydd angen y wybodaeth hon ar gyfer teithiau rheolaidd neu deithiau un-tro*).

5 Gofynion darparu bwyd a dŵr (*rydym yn derbyn nad yw hyn yn ymarferol mewn cewyll, felly mae hyn yn ymwneud ag amseroedd teithio mwyaf yn y bôn ond rhaid i'r gyrrwr fod yn ymwybodol o'r gofynion yn y Rheoliad*).

Gwybodaeth Gefndir am Gludo Anifeiliaid

6 Seicoleg sylfaenol straen; amodau sy'n gallu achosi straen; yr hyn sy'n gallu digwydd os nad yw straen yn cael ei drin a phryd i beidio â chludo adar (*achosion straen, beth yw straen? sut mae straen yn effeithio ar adar; sut mae trin effeithiau straen a sut i'w osgoi*).

7 Yn arbennig, straen thermol, ei effeithiau, sut i'w atal, sut i'w wella (*effeithiau gwres, oerni, gwlybanaeth, lleithder; adnabod straen thermol mewn adar; atal; camau i'w cymryd os yw adar wedi eu heffeithio; monitro amodau amgylcheddol ac amodau'r cerbyd*).

8 Awyru – naturiol a goddefol (*sut gall awyru atal straen thermol; patrymau symudiad aer mewn cerbydau a chewyll cludo; awyru gweithredol a goddefol; methiant awyru; awyru cerbydau sy'n llonydd*).

9 Llociau: diben, manteision neu anfanteision, dadlwytho (*deall rôl llociau a'u heffaith ar yr aderyn; amgylchedd llociau gorau posibl*).

Cynllunio

10 Cynllunio teithiau: amseroedd, llwybrau, cynlluniau wrth gefn (*pwysigrwydd cynllunio, canfod y llwybrau gorau, ystyried rhagolygon tywydd gwael i osgoi straen gwres/oerni, deall y cynllun wrth gefn*).

11 Cynlluniau wrth gefn: pam mae eu hangen, beth ddylent ei gynnwys, sut i'w rhoi ar waith (*y gallu i ddefnyddio'r cynllun wrth gefn pan fo angen*).

12 Cyfathrebu (*gyda phwy i gysylltu, pryd, pam?*) Cydnabyddir mai personél nad ydynt o reidrwydd yn cael eu cyflogi neu eu rheoli'n uniongyrchol gan y cludwr sy'n dal yr adar a'u rhoi mewn cewyll i raddau helaeth. Yn ôl y gyfraith, y cludwr sy'n gyfrifol am yr adar wrth eu cludo ac mae dal a llwytho yn hollbwysig i les yr adar, felly mae cyfathrebu effeithiol rhwng y cludwr, y proseswr a'r

cynhyrchwr yn hanfodol fel bod y cludwr yn gallu bod yn siŵr bod y gwaith dal a llwytho wedi ei gwblhau'n gywir. Er hynny, dylai'r cludwr fod â'r wybodaeth neu'r sgiliau ymarferol canlynol.

Sgiliau Ymarferol

13 Gwybod sut mae dal a thrafod adar heb achosi poen neu drallod (*iechyd y coesau a'r traed a chyflyrau clinigol; dulliau dal a thrafod, y gallu i adnabod arferion dal gwael a'u hunioni*).

14 Adnabod adar nad ydynt yn ffit i'w cludo: adar sy'n sâl neu wedi eu hanafu a'r camai priodol i'w cymryd (*angen rhai sgiliau clinigol sylfaenol i adnabod aderyn sâl; y gallu i ladd heb boen*).

15 Gwybod sut mae systemau cewyll cyffredin yn gweithredu, llwytho'r adar, glanhau a diheintio, cynnal a chadw; yr angen i ddarparu cewyll na fydd yn achosi anaf (*gweithredu cewyll, sut gall cewyll achosi anaf*).

16 Llwytho'r cewyll ar y cerbyd yn ddiogel.

17 Dwyseddau stocio priodol a phryd i'w haddasu e.e. amodau amgylcheddol gwael a phryd i gyfeirio'n ôl at y sawl sy'n gyfrifol am gynllunio'r llwyth (*mewn perthynas â thywydd gwael, rhywogaeth a maint yr adar*).

18 Archwiliad clinigol sylfaenol o'r adar i ganfod straen gwres neu oerni ac anafiadau neu salwch; pryd i ofyn am gyngor/cymorth gan filfeddyg neu rywun arall; y gallu i ladd adar sydd wedi eu hanafu.

19 Sgiliau gyrrwr: gyrru, gweithredu'r cerbyd, sylwi ar ddiffygion, glanhau a diheintio, adeiladu cerbyd (*effaith ymddygiad y gyrrwr ar les adar; sylwi os oes angen atgyweiriadau; defnyddio diheintyddion priodol a thrwyddedig*).

ATODIAD III

FFRAMWAITH O OFYNION HYFFORDDIANT/CYMWYSEDDAU AR GYFER PERSONÉL CANOLFANNAU CYNNULL (Rheoliad 1/2005 y Cyngor)

Cwmpas

Bydd gweithredwyr canolfannau cynnull yn sicrhau bod anifeiliaid yn cael eu trin yn unol â'r rheolau technegol ym Mhenodau I a III, adran I o Atodiad I y Rheoliad.

Rhaid i weithwyr sy'n trafod anifeiliaid mewn canolfannau cynnull sydd wedi eu cymeradwyo yn unol â deddfwriaeth filfeddygol y Gymuned (wedi eu cymeradwyo gan yr UE) gwblhau cyrsiau hyfforddiant ar y rheolau technegol perthnasol a nodir yn Atodiad I y Rheoliad.

Nid yw'r Rheoliad yn nodi fformat yr hyfforddiant sy'n ofynnol a gall gweithredwr y ganolfan gynnull neu ddarparwr hyfforddiant trydydd parti ddarparu hyfforddiant mewnol.

At ddibenion y rheoliad hwn, bydd canolfan gynnull yn golygu lleoedd fel daliadau, canolfannau casglu a marchnadoedd, lle mae ceffylau domestig neu wartheg, defaid, geifr neu foch domestig sy'n deillio o ddaliadau gwahanol yn cael eu grwpio gyda'i gilydd i greu llwythi.

Dylid darllen hwn ochr yn ochr â rhan 1 y canllaw hwn a'r Rheoliad.

Cymwyseddau

Ffitrwydd i deithio

1 Gwybodaeth er mwyn gallu penderfynu a yw anifail yn ffit ar gyfer y daith arfaethedig a bod sicrwydd na fydd amodau'r daith yn achosi anaf neu ddiodefaint diangen iddo. (*Atodiad I, Pennod 1.1 o'r Rheoliad*)

2 Gwybodaeth am sut mae nodi anifeiliaid nad ydynt yn ffit i deithio sydd wedi eu hanafu neu sy'n arddangos gwendidau ffisiolegol neu brosesau patholegol. (*Atodiad I, Pennod 1.2 o'r Rheoliad*)

3 Gwybodaeth am o dan ba amgylchiadau y gellir ystyried bod anifeiliaid sy'n sâl neu wedi eu hanafu yn ffit i gael eu cludo. (*Atodiad I, Pennod 1.3 o'r Rheoliad*)

4 Gwybodaeth am y gofynion os yw anifail yn cael ei daro'n wael neu'n cael ei anafu wrth gael ei gludo. (*Atodiad I, Pennod 1.4 o'r Rheoliad*)

5 Gwybodaeth am y rheolau ynglŷn â rhoi tawelyddion i anifeiliaid sydd i gael eu cludo. (*Atodiad I, Pennod 1.5 o'r Rheoliad*)

6 Gwybodaeth am ofynion gofal penodol gwartheg, defaid a geifr sy'n llaetha. (*Atodiad I, Pennod 1.6 o'r Rheoliad*)

Arferion Cludo

Llwytho, dadlwytho a thrafod

7 Gwybodaeth am y gofynion ar gyfer gweithrediadau llwytho a dadlwytho sy'n para mwy na phedair awr (ac eithrio dofednod). (*Atodiad I, Pennod 3.1.2 o'r Rheoliad*)

8 Gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gweithdrefnau sydd eu hangen ar gyfer llwytho a dadlwytho. (*Atodiad I, Pennod 3, 1.3-1.7 o'r Rheoliad*)

9 Gwybodaeth am y dulliau trafod anifeiliaid sydd wedi eu gwahardd. (*Atodiad I, Pennod 3.1.8 o'r Rheoliad*)

10 Gwybodaeth am sut a phryd i ddefnyddio offerynnau sy'n rhoi sioc drydan a chyfyngiadau ar ddefnyddio'r offerynnau hyn. (*Atodiad I, Pennod 3.1.9 o'r Rheoliad*)

11 Gwybodaeth am y gofynion o ran offer a'r gweithdrefnau ar gyfer clymu anifeiliaid. (*Atodiad I, Pennod 3, 1.10-1.11 o'r Rheoliad*)

12 Gwybodaeth am y gofynion gwahanu yn ystod trafod a chludo, a deall sut gall gwahanu anifeiliaid yn ddiangen eu cynhyrfu. (*Atodiad I, Pennod 3, 1.12-1.13 o'r Rheoliad*)

Wrth Gludo

13 Gwybodaeth am faint o le i'w neilltuo ar gyfer y rhywogaeth o anifail sy'n cael ei chludo a'r dull cludo. (*Atodiad I, Pennod 7 o'r Rheoliad*)

14 Dealltwriaeth o'r gofynion awyru ar gyfer anifeiliaid wrth eu cludo, gan ystyried y nifer a'r math o anifeiliaid sy'n cael eu cludo, a'r gofyniad i storio cynwysyddion mewn modd nad yw'n rhwystro awyru. (*Atodiad I, Pennod 3.2.6 o'r Rheoliad*)

15 Gwybodaeth am ofynion bwyd, dŵr a gorffwys anifeiliaid wrth eu cludo.
(Atodiad I, Pennod 3.2.7 a Phennod 5 o'r Rheoliad)

ATODIAD IV

Tystysgrif Cymhwysedd ar gyfer Gyrrwyr a Chynorthwyywyr yn unol ag Erthygl 17(2) o Reoliad (EC) Rhif 1/2005 y Cyngor		
1. MANYLION Y GYRRWR / CYNORTHWYDD*		
1.1. Cyfenw		
1.2. Enwau cyntaf		
1.3. Dyddiad geni	1.4. Man a gwlad geni	1.5. Cenedligrwydd
2. RHIF Y DYSTYSGRIF		
2.1. Mae'r dystysgrif hon yn ddilys ar gyfer [siwrneiau hyd at 8 awr / dros 8 awr*] sy'n cludo [gwartheg / defaid / geifr / moch / ceffylau / dofednod / adar hela*]		
3. CORFF SY'N RHOI'R DYSTYSGRIF		
3.1. Enw a chyfeiriad y corff sy'n rhoi'r dystysgrif		
3.2. Ffôn	3.3. Ffacs	3.4. E-bost
3.5. Dyddiad	3.6. Man	3.5. Stamp
3.8. Enw a llofnod * Dileer fel sy'n briodol		